

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**9.30yb – 9 Mawrth 2020
Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn**

AGENDA

Aelodaeth:

Rachel Barber (Cadeirydd)
John Cunliffe
Claire Hodson
Dianne Walker

	Eitemau Sefydlog		Tudalen	Amser
	Ymddiheuriadau	Cadeirydd		5
88	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 gael eu harwyddo fel cofnod cywir.	Cadeirydd	3-12	
89	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd	13-24	10
	Eitemau Sefydlog			
90	Diweddariad AHM (er gwybodaeth)	Tîm Archwilio ac Arolygu	25-29	10
91	Archwilio Mewnol <ul style="list-style-type: none"> a. Trosolwg Archwilio Mewnol b. Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA) c. Adroddiad Sicrwydd – Rheolwyr AD – Strategaeth Lesiant d. Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol o Ddyledwyr e. Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol Cyflawniad Rheoli Stadau f. Adolygiad Cydweithredol Trefniadau Sicrwydd Cyflogres g. Adolygiad Sicrwydd o'r Rhaglen Gyfalaf h. Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol Hafan Ar-lein Unigol 	Archwilio Mewnol	30-40 41-50 51-54 55-60 61-68 69-73 74-77 78-84	10
92	Diweddariad Risg	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	85-87	10

Eitemau Sefydlog				
93	Proses Rheoli Risg (er sicrwydd) (Ar lafar)	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol		20
94	Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Fframwaith ac Adolygiad Llywodraethu (ar gyfer adolygiad ac arsylwadau)	Prif Swyddog Cyllid / Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	88-105	20
95	Strategaeth Gyfalaf (adolygiad ac arsylwadau)	Prif Swyddog Cyllid	106-133	15
96	Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol (i'w gymeradwyo)	Archwilio Mewnol	134-155	10
97	Cynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (i'w gymeradwyo)	Swyddfa Archwilio Cymru	156-172	10
98	Rheolaeth Caffael a Chytundebau (er gwybodaeth) (Cyflwyniad yn unig)	Prif Swyddog Cyllid	172-191	10
	Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)			
	DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 30 Gorffennaf 2020 5 Hydref 2020 10 Rhagfyr 2020 DIGWYDDIAD CYDBWYLLGORAU ARCHWILIO CYMRU GYFAN 30 Ebrill 2020 SESIWN FRIFFIO DECHNEGOL 8 Mehefin 2020 (Datganiad o Gyfrifon 2019/20)			
			Cyfanswm	140mun

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Tachwedd 2019

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:
Jim Illidge (Cadeirydd) Rachel Barber John Cunliffe Dianne Walker Claire Hodson
SWYDDOGION YR HEDDLU:
Seb Phillips - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards - Pennaeth Cyllid Helen Williams - Cyfrifydd Rheoli Ariannol Kathryn Jones - Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes Uwcharolygydd Simon Williams - Gwasanaethau Corfforaethol Anne Matthews - Swyddog Cyllid a Busnes Y Prif Arolygydd Andrew Griffiths - Tîm Archwilio ac Arolygu
SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:
Stephen Hughes - Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson - Prif Swyddog Cyllid Angharad Jones - Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

ERAILL:

Helen Cargill, TIAA

YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Derwyn Owen a Michelle Phoenix o Swyddfa Archwilio Cymru.

Croesawodd y Cadeirydd Seb Philips i'w gyfarfod cyntaf o'r Cydbwyllgor Archwilio fel Cyfarwyddwr newydd Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru

76. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Ychwanegiad dan Adran 72 - Nododd aelod o'r Cydbwyllgor eu bod nhw'n ymwybodol o Gwmni Asesu Risg allai fod o gymorth gyda hyfforddiant os bo'r angen.

Newid Adran 72, Ail baragraff - newid "mae'r dull wedi cael ei ymledu ar draws yr Heddlu" i "mae'r dull yn cael ei dreialu ar draws yr Heddlu".

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod unwaith bydd y newidiadau uchod wedi eu gwneud.

77. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithredu a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion.

78. DIWEDDARIADAU'R HMICFRS

Gwnaeth Tîm Archwilio ac Arolygu'r Heddlu ddiweddarau'r Pwyllgor ar arolygon HMICFRS sydd wedi'u hymgymryd ers y cyfarfod diwethaf.

Mae'r arolwg Amddiffyn Plant hefyd wedi digwydd a chafodd Heddlu Gogledd Cymru gymeradwyaeth dda gyda dim ond 7 o argymhellion mewn adroddiad cadarnhaol iawn ar y cyfan. Mae ymatebion i'r argymhellion wedi cael eu dychwelyd yn ddiweddar i'r HMICFRS ac maent yn disgwyl i HMICFRS ailedrych ar yr Heddlu i wirio eu safle o fewn y chwe mis nesaf. Mae adborth yn dangos eu bod nhw'n fodlon gyda'r ymateb a dderbuniwyd.

Mae'r arolwg gwrthderfysgaeth hefyd wedi digwydd ac mi oedd y dibriffio HOT yn gadarnhaol. Ni dderbyniwyd argymhellion hyd yma.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu gosod yn gyntaf o fewn y tabl o argymhellion sy'n weddill fesul heddlu, ac maent hefyd ar frig cyfradd llwyddiant yr argymhellion a gwblhawyd fesul bwrdd Heddlu.

Derbyniwyd adborth gan yr HMICFRS o ran Arolygiad PEEL a derbyniwyd graddfa dda yn gyffredinol. Mae un maes angen sylw nawr - Trin y Cyhoedd yn Deg. Mae hyn bellach yn flaenoriaeth o fewn yr Heddlu ac mae canlyniadau Arolwg Hyder y Cyhoedd a wnaed yn ddiweddar yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o Gynllunio Adnoddau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ni dderbyniwyd gan yr arolwg PEEL ond mae'n debygol bydd yr Heddlu'n herio rhai o'r penderfyniadau hyn. Bydd yr argymhellion yn cael ystyriaeth / eu gweithredu gan yr holl feysydd busnes.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i gael gweld ymateb i'r HMICFRS cyn y cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio; cafodd y cais hwn ei wrthod gan Brif Weithredwr a Chadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio.

Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd yr ymatebion i'r argymhellion wedi'u rhannu â'r Cydbwyllgor Archwilio gan yr ystyridd bod hyn yn rhan o rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth graffu ar yr Heddlu grym ac nid yn gyfrifoldeb oedd yn perthyn i'r Cydbwyllgor Archwilio. Eglurodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio eu bod yn credu

mai eu rôl nhw oedd ceisio sicrwydd bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu a'u craffu.

Adroddwyd bod Bwrdd Cynllunio Strategol Heddlu Gogledd Cymru yn craffu ar holl argymhellion HMICFRS a bod canlyniadau'n cael eu bwydo i'r Bwrdd Gwelliannau Corfforaethol, yr Uwch Fwrdd Rheoli a'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am gylch gorchwyl y byrddau hyn i'w galluogi i gael sicrwydd bod yr argymhellion yn cael eu harchwilio a'u cofnodi o fewn y sefydliad.

ACTION 78a	Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cynllunio Strategol, y Bwrdd Gwelliannau Corfforaethol, yr Uwch Fwrdd Rheoli a'r Bwrdd Gweithredol Strategol i'w rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.
------------	--

Nodwyd bod yr adroddiad Amddiffyn Plant ar gael ar-lein ac, ym marn y Pwyllgor, mae'n ddigon posibl ei fod yn destun pryder i aelodau'r cyhoedd. Dywedodd Prif Arolygydd y Tîm Arolygu ac Archwiliad fod datganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi sy'n egluro'r camau y mae Heddlu Gogledd Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Archwilio'r cam hwn a dywedodd fod angen rhannu'r camau a gymerwyd gyda'r cyhoedd.

Nodwyd bod swyddogion ychwanegol wedi cael eu dyrannu i'r Uned Amddiffyn Pobl Fregus (PVPU) a bod gwelliannau wedi'u gwneud o ran nodi unigolion sy'n fregus. Cydnabuwyd bod cadw swyddogion arbenigol yn hanfodol.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod anawsterau o fewn y Cynllun Oedolyn Priodol. Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredol mai'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n berchen ar y contract a'u bod yn y broses o adolygu'r contract yng ngoleuni'r anawsterau a gafwyd wrth recriwtio Oedolion Priodol a'r amser a gymerir i gyrraedd dalfa.

79. **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL AC ADRODDIAD CYNNYDD**

a. GORUCHWYLIAETH ARCHWILIO MEWNOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys y Rhaglen Waith.

Nodwyd bod 1 argymhelliad hwyr/heb ei dderbyn yn bodoli a bydd hwn yn cael ei adolygu ar ddiwedd mis Rhagfyr.

Mae Iechyd a Rheolaeth a digideiddio'r ffurflenni iechyd a diogelwch wedi cael eu hoedi eto gan fod y gweinyddwr Iechyd a Diogelwch a benodwyd wedi tynnu'n ôl o ymgymryd â'r rôl ar y funud olaf. Mae Rheolwr Iechyd a Diogelwch newydd bellach wedi'i benodi a bydd y camau hyn yn cael eu cymryd cyn gynted â phosibl. Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i dderbyn diweddariad ar y camau gweithredu yn y cyfarfod nesaf.

ACTION 79a	Diweddarau Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Iechyd a Rheoli a digideiddio'r ffurflenni iechyd a diogelwch.
------------	---

b. ADOLYGIAD SICRWYDD RHEOLIADAU MEWNOL CRYNO (SICA)

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith a wnaed yn 2018-19 a diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol.

Nodwyd na fydd archwiliad o Gydweithrediadau Heddlu Gogledd Cymru bellach yn digwydd yn y flwyddyn ariannol hon ac y defnyddir y dyddiadau a ddyrennir ar gyfer archwiliad arall nad yw wedi'i nodi eto.

Mae'r holl archwiliadau cydweithredol sy'n cael eu cynnal gyda Heddluoedd eraill Cymru yn mynd rhagddynt yn dda ac mae dau adroddiad drafft wedi'u cyhoeddi. Roedd yr archwiliad ystadau yn anodd ei gymharu gan fod contractau gwahanol wedi'u dewis ar draws yr heddluoedd. Adroddwyd bod y broses yn debyg iawn o fewn pob heddlu gyda dim ond y cysylltiadau yn anodd eu cymharu gan nad oedd contractau cyson yn cael eu dewis.

I'W NODI - ceisiwyd sicrwydd a dderbyniwyd y tu allan i'r cyfarfod, sef bod camau a nodwyd yn Nodiadau Briffio'r Cleient wedi'u gweithredu o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Awgrymwyd y dylai Archwiliad Mewnol ddarparu colofn ychwanegol ar ddiwedd y tabl Nodiadau Briffio Cleientiaid er mwyn cael sylwadau. Roedd y Cydbwyllgor Archwilio o'r farn y byddai hyn yn ddefnyddiol ac yn Archwilydd Mewnol er mwyn sicrhau y bydd colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y tabl.

ACTION 79b	Archwiliad Mewnol i osod colofn ychwanegol ar gyfer sylwadau o fewn y tabl Nodiadau Briffio Cleient.
------------	--

c. ADOLYGIAD SICRWYDD - REOLAETH GYLLIDEBOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd - adroddiad Rheoli'r Gyllideb lle rhoddwyd sicrwydd sylweddol ac na nodwyd unrhyw gamau gweithredu.

Ystyriodd yr adolygiad y broses o baratoi'r gyllideb, monitro trefniadau a chyflwyno adroddiadau i Fyrddau. Nodwyd bod trefniadau cynhwysfawr ar waith ar gyfer monitro a rheoli cyllidebau o fewn Heddlu Gogledd Cymru gan ymgorffori'r broses o gynhyrchu ac adrodd ar wybodaeth fanwl am gyfrifon ariannol a rheoli i'r holl randdeiliaid allweddol.

d. ADOLYGIAD SICRWYDD - RHEOLAETH Y TRYSORLYS

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth y Trysorlys lle rhoddwyd sicrwydd sylweddol ac na nodwyd unrhyw gamau gweithredu

Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer rheoli'r trefniadau buddsoddi a benthyca, cydymffurfio â pholisi cyffredinol y sefydliad, trefniadau bancio, cysoni ac adrodd i'r pwyllgor.

Nodwyd bod prosesau a gweithredoedd Rheolaeth y Trysorlys yn gweithredu yn unol â Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwyir.

e. ADOLYGIAD CYDYMFFURFIAETH RHEOLI ANSICRWYDD - LLINIARU'R RHEOLAETHAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad Adolygiad Cydymffurfiaeth o Reoli Ansicrwydd lle cafwyd sicrwydd rhesymol a dim argymhellion eu cynnig. Rhoddwyd gradd sicrwydd rhesymol oherwydd y newidiadau cyffredinol a wnaed o fewn y sefydliad.

Ystyriodd yr adolygiad ddwy risg sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ym map risgiau'r sefydliad a chaiff effeithiolrwydd y rheolaethau a nodwyd ei adolygu. Nodwyd bod yr heddlu yn parhau i gwblhau'r Polisi Rheoli Risg oherwydd y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i ddatblygu proses Mapio Sicrwydd i atgyfnerthu ei drefniadau presennol ar gyfer rheoli risg.

Y gobaith yw y bydd yr archwiliad cydweithredol ar Liniaru Risg a gynhelir y flwyddyn nesaf yn gwneud argymhellion ledled Cymru ac yn galluogi pob heddlu i rannu arfer gorau.

80. ADRODDIAD RHEOLI RISG

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys yr adroddiad Proses Rheoli Risg.

Adroddwyd bod dau risg o'r ESN wedi eu hychwanegu at y gofrestr a bod risg 37 wedi ei gau gan fod recriwtio staff ychwanegol wedi lliniaru'r risg.

Nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud o ran symleiddio'r broses mapio sicrwydd. Cynhelir cyfarfod ganol mis Rhagfyr lle yr edrychir ar faterion yn drylwyr i sicrhau y tynnir sylw at faterion priodol ac i ddod o hyd i broses nad yw'n rhy fiwrocraidaidd ac sy'n sicrhau bod swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio eu bod yn cael adroddiad cynnydd unwaith bydd y cyfarfod wedi digwydd a chyn cyfarfod mis Mawrth o'r Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 80a	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau y bydd adroddiad cynnydd yn cael ei anfon at aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ôl cynnal y cyfarfod i drafod y broses mapio sicrwydd.
------------------	---

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio pam mai dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd y risg o ran yr ESN ar y Gofrestr Risg pan oedd pawb wedi bod yn ymwybodol o'r mater ers peth amser. Nodwyd bod nodi risg yn faen tramgwydd a bod angen newidiadau diwylliannol o fewn y sefydliad. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn delio â'r materion ac yn gyndyn o roi ar y gofrestr risg fel pryder am y fiwrocraetiaeth a fyddai'n ei olygu.

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod all-lein cyn gynted â phosibl rhwng y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yr Uwcharolygydd

Gwasanaethau Corfforaethol ac unrhyw aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio a hoffai fod yn bresennol i drafod y Gofrestr Risg a'r ffordd ymlaen.

GWEITHRED 80b	Trefnu cyfarfod rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol, Rheolwr Llywodraethu dros dro ac aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod y Gofrestr Risg.
---------------	--

81. ADRODDIAD 'DEEP DIVE' - CYLLID

Risg – bod Cyllid ac Adnoddau yn methu cyflawni cynlluniau gwasanaeth. Mae £ 31.104 miliwn o doriadau wedi'u gwneud dros y cyfnod rhwng 2001-12 a 2018-19, sef 21% o'r gyllideb wreiddiol. Mae pwysau ariannol pellach yn sgil toriadau pellach posibl, adolygiad o'r fformiwla ariannu plismona, mwy o ddyfarniadau cyflog a galwadau newydd yn golygu y bydd pwysau parhaus ar yr adnoddau sydd ar gael i ateb y galw am y gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybodaeth fanwl am y mesurau lliniaru a gymerwyd i sicrhau bod y risg yn cael ei rheoli a'i graffu'n gywir.

Esboniwyd mai'r prif ddogfennau cefndirol a ddefnyddir wrth ystyried y prosesau cyllid yw:

Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
Strategaeth Gyfalaf
Datganiad o Gyfrifon

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio iddynt weld Datganiad Rheoli'r Heddlu sy'n cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ar gyfer HMICFRS. Mae Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol yn fodlon rhannu ond byddai angen sicrhau bod yr HMICFRS yn rhoi ei ganiatâd i'r ddogfen hon gael ei gweld gan y Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 81a	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i gysylltu â HMICFRS i weld a ellir rhannu'r Datganiad Rheoli Heddlu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.
---------------	---

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod gwaith cynllunio'n cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn ond bod y prif waith yn cael ei wneud rhwng mis Mehefin a mis Ionawr bob blwyddyn.

Defnyddiwyd Rhaglen Gwella Gweithredol (OIP) yn y gorffennol ar gyfer cynllunio'r adnoddau oedd eu hangen ond eleni, defnyddiwyd Cynllunio Adnoddau â Blaenoriaeth, a dyma'r broses newydd y bydd yr Heddlu yn ei ddefnyddio pan ystyrir gwasanaeth, effaith, risg a manteision.

Esboniodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ei fod yn disgwyl gweld mwy o esboniad yn y ddogfen hon o'r sicrwydd a roddwyd i ddangos bod y risg yn cael ei rheoli'n

gywir h.y. mwy o fanylder yn esbonio'r hyn sydd ar gael/ystyriaeth wrth bennu'r gyllideb.

Nodwyd y bydd crynodeb gweithredol yn cael ei lunio yn y dyfodol ar gyfer pob papur deep dive sy'n cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi pa sicrwydd sydd ar gael ac yn edrych ar senarios o beth fyddai'n digwydd pe bai risg yn cael ei nodi. (Mae hyn i'w drafod yn y cyfarfod oddi ar-lein a grybwyllir yng nghanam gweithredu 80B).

Dywedodd y Prif Weithredwr fod senarios yn cael eu defnyddio eisoes wrth i'r Pennaeth Cyllid a swyddogion eraill o'r Heddlu ddod i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda senarios o wahaniaeth wrth bennu'r cynnydd yn y praesept. Nodir y senarios hyn o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynir i'r Panel Heddlu a Throsedd bob blwyddyn a byddent yn ateb llawer o'r cwestiynau a godwyd. Cytunwyd y bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Adroddiad Praesept eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 81b	Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Adroddiad Praesept i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.
------------------	--

Bydd y risg nesaf a gyflwynir i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer Deep Dive yn cael ei ddewis yn y cyfarfod oddi ar-lein (cam gweithredu 80b). Awgrymodd y Pennaeth Cyllid mai'r peth gorau fyddai dewis risg a oedd yn golygu bod Adroddiad Archwilio Mewnol yn cyfateb i'r pwnc gan y byddai hyn hefyd yn rhoi sicrwydd.

GWEITHRED 81c	Bydd y risg nesaf a gyflwynir i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer Deep Dive yn cael ei ddewis yn y cyfarfod oddi ar-lein.
------------------	--

82. ADOLYGIAD LLYWODRAETHU

Diweddarodd y Rheolwr Llywodraethu dros dro'r Cydbwyllgor o ran y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma yn ogystal â'r camau nesaf o fewn y Prosiect Llywodraethu.

Mae'r Prosiect Llywodraethu yn mynd rhagddo'n dda, ond nid yw wedi mynd drwy'r strwythurau llywodraethu ffurfiol hyd yma ac nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cael ei friffio ynghylch y canfyddiadau eto.

Bydd y pedwerydd cam yn dechrau'n fuan ac yn canolbwyntio ar weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad er mwyn sicrhau bod gan yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd strwythurau/trefniadau llywodraethu effeithlon, effeithiol a chadarn ar waith.

Mae 28 o argymhellion wedi cael eu hamlygu ac argymhellir creu cynllun dirprwyo a bod gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau eraill i ddatblygu arfer gorau.

Nodwyd nad oedd y ddogfen yn cynnwys pa strwythur llywodraethu presennol sydd ar waith na'r hyn a gynigir. Dywedodd y Cydbwyllgor Archwilio fod ganddynt lawer o brofiad yn y maes hwn ac y gallant ychwanegu gwerth cyn i'r ddogfen derfynol gael ei pharatoi. Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i ymgynghori â'r

Cydbwyllgor Archwilio fel rhan o'r adolygiad llywodraethu cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau.

GWEITHRED 82	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i rannu dogfen Adolygu Llywodraethu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio cyn i ddogfen yr adolygiad llywodraethu gael ei chwblhau.
-----------------	---

83. ADRODDIAD DWYWAITH Y FLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2019-20

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys y papur a sylwodd nad oedd unrhyw doriadau annisgwyl i'r terfynau na'r dangosyddion.

Nodwyd bod benthyciadau tymor hir wedi cael eu caffael pan oedd cyfraddau llog ar eu hisaf ac mae hyn wedi bod o fudd i'r sefydliad gan ei fod wedi gallu lleihau'r angen am fenthyciadau tymor byr ac wedi rhoi sicrwydd ar y llog a dalwyd.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio nad oedd yr adolygiad ariannol hanner blwyddyn gofynnol hyd at 30 Medi 2019 ar gael, er gwybodaeth yn unol â'r cais. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Banel Troseddu a'r Heddlu maes o law.

84. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad sy'n cau archwiliad y llynedd lle mae'r OIP wedi cael ei gydnabod fel arfer gorau.

Gwnaeth y Cydbwyllgor Archwilio longyfarch pawb am eu gwaith caled.

85. CYFARFODYDD Cydbwyllgor Archwilio 2020 A'R RHAGLEN WAITH

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio fod newidiadau i'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio'r flwyddyn nesaf a nododd eu bod ar gael i fod yn bresennol ar y dyddiadau diwygiedig.

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio i'r pynciau canlynol gael eu hychwanegu at gynnwys y Rhaglen Waith.

Adolygiad Llywodraethu - Cyfarfod mis Mawrth
Datganiad Rheoli'r Heddlu - ar ôl ei gyhoeddi
Argymhelliad HMICFRS PEEL – ymgysylltu â'r cyhoedd – pan ddaw argymhellion ar gael.

Prif Swyddog Cyllid i roi gwybod i Swyddfa Archwilio Cymru y bydd angen y Llythyr Archwilio Blynyddol ym mis Hydref y flwyddyn nesaf ac nid ym mis Tachwedd fel yn y blynyddoedd diwethaf.

GWEITHRED 85	Prif Swyddog Cyllid i roi gwybod i Swyddfa Archwilio Cymru am y newid dyddiad o ran cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol ac ychwanegu pynciau at Gynllun Gwaith y Cydbwyllgor Archwilio.
-----------------	--

86. YMDDISWYDDIAD Y CADEIRYDD

Nodwyd bod Cadeirydd presennol y Cydbwyllgor Archwilio yn ymddiswyddo fel Cadeirydd er mwyn derbyn Cadeiryddiaeth arall, ond nododd y byddai'n fodlon aros fel aelod o'r Pwyllgor.

Diolchodd y Prif Swyddog Gweithredol i'r Cadeirydd am ei holl waith a'i fod yn ddiolchgar ei fod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am fwriadau'r Cadeirydd a'i fod yn falch ei fod wedi gallu aros ar y Pwyllgor.

Cyhoeddodd y Prif Swyddog Gweithredol ei fod yn falch iawn o gyhoeddi mai Rachel Barber fydd Cadeirydd newydd y Cydbwyllgor Archwilio.

Nododd Aelod y Cydbwyllgor Archwilio nad oedd swydd y Cadeirydd wedi'i llenwi drwy broses a oedd yn gwahodd pob aelod cymwys i wneud cais am y rôl. Penderfynwyd ar y penodiad heb wahodd neu ystyried ceisiadau, a rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio oedd yn weddill o'r dewis o Gadeirydd newydd drwy sgysiau unigol gyda'r Prif Weithredwr.

Yn ôl Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio er ei fod yn derbyn ac yn cefnogi'r penderfyniad, argymhellir y dylid cynnal proses agored yn y dyfodol i lenwi swyddi gwag, i sicrhau tryloywder a chysondeb â'r prosesau a fabwysiedir ar gyfer llenwi swyddi gwag mewn manau eraill yn HGC a SCHTh, yn ogystal â fel arfer gorau ym maes adnoddau dynol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi cael gwybod bob amser am y broses a oedd wedi'i dilyn a'i fod wedi siarad â phob aelod yn unigol.

87. UNRHYW FATER ARALL

Cofnod Gweithrediadau

Ail-edrych aer y cofnod gweithrediadau:-

72 - wedi'i gau

74a - Cyfarfod ar wahân i drafod y materion dan sylw. Cau 74a ac agor gweithrediad newydd.

Pryderon o ran cofnodi'r Broses Risg

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn awyddus i gofnodi eu pryderon parhaus ynghylch dogfennu'r broses risg a dogfennau eraill sy'n cael eu rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn dal i chwilio am welliannau yn y llif gwybodaeth iddynt, nid am eu bod am wirio'r manylion ond am eu bod yn rhan o'r trywydd archwilio sy'n sicrhau bod sicrwydd a sylw rhesymol ar wahanol faterion. Cytundeb bod y ffordd mae'r cyfarfod yn cael ei drefnu yn ffordd dda ymlaen i'r dyfodol.

Hwn fydd cyfarfod olaf y Cydgysylltydd Risg a Pharhad Busnes cyn ei hymddeoliad a hoffai'r Cydbwyllgor Archwilio ddiolch i Kathryn am ei holl waith caled a dymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

DRAFT

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Tachwedd 2018

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	22a	UFA - RhDDC - Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar rannu gwybodaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o dan y RhDDC newydd.	Ar unwaith	PSG	<p>Angen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn gweithio ar hwn.</p> <p>ISA/MOU yn cael ei ddrafftio ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng SCHTh a HGC. Awgrymir cael un ddogfen i gyd-fynd â'r Protocol Plismona. Nid yw'r Prif Swyddog Gweithredol yn credu bod angen hyn gan fod rhannu gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn y Protocol Plismona a deddfwriaeth oedd yn cynnwys gwaith y Comisiynydd ond mae gwaith yn mynd yn ei flaen rhwng y ddau sefydliad. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.</p> <p>09/10/2019 - Prif Swyddog Gwybodaeth/Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn parhau i gydlynu gyda Heddluoedd eraill i weld beth sydd angen/rhaid gwneud ond mae'r Protocol Plismona yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth rhwng SCHTh a Heddluoedd.</p>	
	41d	Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Rheolwr Archwilio Cymru i basio sylwadau at	Ar unwaith	Rheolwr Archwilio Cymru	<p>Mae hwn yn parhau drwy gydol yr archwiliad.</p> <p>17/10/2019 – gweithiodd y broses yn dda eleni.</p> <p>Gweithrediad wedi cau.</p>	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Gyfarwyddwr Archwilio Cymru a hefyd i geisio pasio gwybodaeth am gamddatganiadau posib i Heddlu Gogledd Cymru cyn gynted â phosib i leihau'r tebygolrwydd o gamddatganiadau sylweddol aros heb eu cywiro yn y cyfrifon.				
	42	Swyddfa Archwilio Cymru - Llythyrau Ymchwiliad Twyll - Yn y dyfodol, y Prif Swyddog Cyllid i gynnig ymateb o'r blynyddoedd blaenorol i'r Llythyrau Ymholiadau Twyll ar gyfer y ddwy flynedd ochr yn ochr mewn dogfen sengl er mwyn i'r Cydbwyllgor Archwilio allu cymharu'r ddau yn rhwyddach.	Mawrth 2020	PSC	Cyfredol.	
	44b	Bwrdd Cyd Lywodraethu a Drafft Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ddod â chanlyniadau'r adolygiad llywodraeth i gyfarfod mis Medi o'r Cydbwyllgor archwilio.	Cyfarfod mis Tachwedd	CCA	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro i ddod i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd Ar yr agenda.	Wedi cau
31/07/2019	51	Cyfrifon Terfynol ac ISA260 - Y Tîm Cyllid i fwrw ymlaen gyda sylwadau tu allan i'r cyfarfod a awgrymwyd gan y Cydbwyllgor Archwilio ar y Diwrnod Cyfrifon.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Bydd sylwadau ac awgrymiadau gan aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hystyried ar gyfer cyfrifon drafft cychwynnol 2019-20.	Wedi cau
	56a	Moeseq - Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Ar unwaith	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Y Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n datgan bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd ac yn argymhell na ddylai CHTh beidio â bod yn rhan o'r mater ar y foment.	
	56b	Moeseq - Prif Swyddog Gwybodaeth i greu diagram llif syml o'r broses	Ar unwaith	Llywodraethu a Sicrwydd	Ar goll o'r Gweithrediadau (diweddariad yn y cyfarfod nesaf).	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		dilema foesegol a sut y'i gosodir o fewn Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru.			28/11/2019 Swyddog Llywodraethu a Pholisi i ymgymryd â hyn.	
	56c	Moeseg - Y Prif Swyddog Gweithredol i ofyn i Heddlu Gogledd Cymru adolygu aelodaeth gyhoeddus y Pwyllgor Moeseg i sicrhau bod holl ardaloedd cymdeithas Gogledd Cymru yn cael eu cynrychioli.	Ar unwaith	Prif Swyddog Gweithredol	Prif Swyddog Gweithredol i ddiweddarau yn y cyfarfod (ddim ar y Cofnod Gweithrediadau) 28/11/2019 Bydd Cadeirydd Annibynnol newydd yn cael eu recriwtio ar gyfer y Pwyllgor Moeseg. Bydd yr aelodaeth yfan a'r Cylch Gorchwyl yn cael eu diweddarau ar ôl penodi Cadeirydd newydd	
	56d	Moeseg - Prif Swyddog Gweithredol i gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i holi os byddent yn ystyried rhoi rôl gyfranogol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o fewn y Pwyllgor Moeseg.	Ar unwaith	Prif Swyddog Gweithredol	Mae'r mater nawr wedi ei ddatrys a chadarnhawyd y bydd gan y cynrychiolydd yr SCHTh ar y Pwyllgor rôl gyfranogol llawn. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	59a	Archwilio Mewnol - Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys risgiau a nodwyd o fewn y daenlen a anfonwyd at y Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	Ychwanegwyd Tab i'r adroddiad i aelodau'r Cydbwyllgor yn rhoi manylion y CBN a dderbyniwyd wrth TIAA a gweithredwyd arno. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	59b	Archwilio Mewnol - Archwilio Mewnol i wirio pa weithrediad sydd wedi'u gymryd yn erbyn yr argymhelliad Sicrwydd Data.	Cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	Caewyd un o'r argymhellion am 2018/19 bydd y ddau sydd ar ôl yn cael eu hasesu yn ystod dilyniant 2019/20. 28/11/2019 Bydd archwiliadau dilynol yn digwydd yn Chwefror/Mawrth a byddent yn adrodd am y canfyddiadau.	
	59c	Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i wirio fod Heddlu Gogledd Cymru a CGI wedi cyfarfod i gytuno ar	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Sgyrsiau dros e-bost yn digwydd. 30/09/2019 - Cynhaliwyd y cyfarfod fis Mawrth a chwblhawyd y gweithrediadau. Cytunwyd ar gytundeb CGI i gael ei ymestyn yn cynnwys nifer o welliannau	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		neidiadau i gytundeb.			gwasanaeth a'i arwyddo fis Medi.	
	59d	Archwilio Mewnol - Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i adolygu estyniad i'r cytundeb cyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd arwyddo.	Cyn gynted â phosibl	Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio	Sgyrsiau dros e-bost yn digwydd. Cyfredol 17/10/2019 - Cyfarfu pennaeth TG a Phennaeth Cyllid ac Adnoddau gydag aelodau Cydbwyllgor i drafod. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	59e	Archwilio Mewnol - Rheolwyr i sicrhau bod holl Adrannau yn dysgu gwersi gan Adolygiadau Archwilio Mewnol blaenorol tebyg.	Cyn gynted ag y cwblheir adolygiad	Rheolaeth	Busnes o ddydd i ddydd fel rhan o brosesau rheoli risg, fel bydd yn ymddangos yn yr adroddiad at wraidd y mater. 28/11/2019 Bydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Broses Lywodraethu. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	59f	Archwilio Mewnol - Archwilio Mewnol i adolygu'r defnydd o destun coch o fewn Adroddiadau Archwilio Mewnol.	Ar unwaith	Rheolwr Archwilio Mewnol	Wedi ei gwblhau. Nid ydym bellach yn defnyddio testun coch yn y tudalennau crynhoi yn adroddiadau archwilio mewnol TIAA at gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	59g	Archwilio Mewnol - Prif Swyddog Cyllid i gynnwys caffaeliadau/cytundebau o fewn cynllun gwaith y Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Cynllun gwaith wedi ei ddiweddarau a chyflwyniad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol yn cael ei baratoi. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	59h	Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ymweliad yr ICO i Heddlu Gogledd Cymru i adolygu eu cynllun gweithredu o ran RhDDC.	Pan mae ymweliad yr ICO wedi dod i ben	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Cynhaliwyd adolygiad er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r RhDDC ac mae'r gweithrediadau wedi cwblhau. 28/11/2019 Ail-agor. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau edrych ar yr adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.	
	60	Adroddiad Blynyddol CA - Cynorthwydd Personol i ddiweddarau'r Cynllun Strategol Parhaus Archwilio Mewnol o fewn Adroddiad Blynyddol CA.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol	Diweddarwyd Adroddiad Blynyddol y CA gyda gwybodaeth wedi ei gyhoeddi ar y wefan.	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	61	Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20 - Y Prif Swyddog Cyllid i gysylltu â heddluoedd eraill Cymru o ran dyddiad arall ar gyfer cyfarfod CA Cymru Gyfan.	Cyfarfod mis Medi	Prif Swyddog Cyllid	Wedi'i logi ar gyfer 30 Ebrill 2020 yn Llai - disgwyl cadarnhad. 17/10/2019 – Cyfarfod CA Cymru Gyfan wedi ei gadarnhau ar gyfer 30 Ebrill 2020 yn Llai. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	63	Adroddiad Rheoli Risg - Papur i'w gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio nesaf ar yr awydd am risg a bod y newidiadau i'r Broses Risgiau o fewn Heddlu Gogledd Cymru gael eu cyflwyno i Gydbwyllgor mis Tachwedd.	Cyfarfod mis Medi	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Oherwydd gwyliau blynyddol dros yr haf a'r ymrwymiadau gweithredol nid yw'r newidiadau arfaethedig wedi cymeradwyo eto. Cyfeirir y papur i bwyllgor mis Tachwedd. 28/11/2019 Parodrwydd Risg - papur i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o ran newidiadau yn y prosesau.	
23/09/2019	67	Cofnodion Chofnod Gweithrediadau Cymhorthydd personol i ddiweddar cofnod gweithredu ac anfon dogfennau ymgorffori i Gydbwyllgor Archwilio a'u cadw fel atodiadau i Bwyntiau Gweithredu.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol	Fersiwn Word o'r Pwyntiau Gweithredu wedi cael eu hanfon i'r Cydbwyllgor Archwilio ac wedi eu cadw ar yriant G. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	70b	Adolygiad Sicrwydd - Asedau Sefydlog - Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i ymchwilio ymhellach gan ymgorffori cyfrif o asedau wrth brofi PAT.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Ymgorffori cymryd stoc i'r ymarfer profi PAT i'w ystyried yn yr ymarfer tendr nesaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	70c	Adolygiad Sicrwydd Llywodraethu - Ymgysylltiad Cymunedol Aelod Cydbwyllgor Archwilio i anfon par CCTV i Bennaeth Cyllid ac Adnoddau.	Ar unwaith	Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio	Hyfforddiant lechyd a Diogelwch - edrych yn ddyfnach i'r mater hwn.	
	71	Rheolaeth y Fflyd Symudol Gweithio symudol a recriwtio 20,000 o swyddogion i'w osod ar Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio yn y gwanwyn.	Cyfarfod mis Mawrth	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	I'w roi ar agenda cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio fis Mawrth.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	72	Adroddiad Rheoli Risg - Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid i adolygu amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio i benderfynu ar yr adegau gorau ar gyfer cyfarfodydd.	Cyfarfod mis Tachwedd	Prif Bennaeth Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	74a	Adroddiad 'Deep Dive' - Cyllid Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a Chydlynedd Busnes a Risg i greu templed ar gyfer sesiynau "Deep Dive".	Ar unwaith	Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a Chydlynedd Busnes a Risg	Templed wedi ei gynhyrchu. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
	74b	Adroddiad 'Deep Dive' - Cyllid - Cymhorthydd Personol i osod "Deep Dive" Cyllid ar agenda Tachwedd.	Cyfarfod mis Tachwedd	Cynorthwydd Personol	Adroddiad 'Deep Dive' Cyllid ar agenda Tachwedd. Gweithrediad wedi cau.	Wedi cau
	75	Unrhyw Fater Arall - Dogfen Drosolwg Fewnol ac Adroddiad Cyllid i'w gosod ar agenda'r Cydbwyllgor Archwilio fel eitemau sefydlog.	Cyfarfod mis Tachwedd	Cynorthwydd Personol	Dogfen Drosolwg Fewnol wedi ei osod ar agenda a phapur Panel Heddlu a Throsedd wedi ei gadw ar yr yriant Gyriant. Awgrymu cau'r gweithrediad.	Wedi cau
28/11/2019	78a	Diweddariadau HMIC Cylch Gorchwyl yr Uwch Fwrdd Gweithredol Strategol, y Bwrdd Gwelliannau Corfforaethol, a'r Uwch Fwrdd Rheoli.	Ar unwaith	CP	Cylch gorchwyl wedi'i gyrru i'r aelodau ar 09/12/2019. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	79a	Adroddiad Archwilio Mewnol Ac Adroddiad Cynnydd Diweddaru Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Iechyd a Rheolaeth a digideiddio'r ffurflenni iechyd a diogelwch.	Cyfarfod mis Mawrth	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau		
	79b	Adroddiad Archwilio Mewnol Ac Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol i osod colofn ychwanegol ar gyfer sylwadau o fewn y tabl	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol		




DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Nodiadau Briffio Cleient.				
	80a	Adroddiad Rheoli Risg Adroddiad cynnydd yn cael ei anfon at aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ôl cynnal y cyfarfod i drafod y broses mapio sicrwydd.	Cyn gynted â phosibl	Uwcharolygydd Simon Williams		
	80b	Adroddiad Rheoli Risg - Trefnu cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol, ac aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod y Gofrestr Risg.	Ar Frys	CP	Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 16 Rhagfyr ond wedi cael ei ohirio oherwydd digwyddiadau annisgwyl.	
	81a	Adroddiad 'Deep Dive' - Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i gysylltu â HMIC i weld a ellir rhannu'r Datganiad Rheoli Heddlu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Mae HGC yn gallu rhannu'r Datganiad Rheoli'r Heddlu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r ddogfen wedi cael ei gosod ar y Gyriant G.	
	81b	Adroddiad 'Deep Dive' - Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Adroddiad Praesept i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Mawrth	Prif Swyddog Cyllid		
	81c	Adroddiad 'Deep Dive' - Bydd y Risg nesaf a gyflwynir i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer Deep Dive yn cael ei ddewis yn y cyfarfod oddi ar-lein.	Ar Frys	CP	Fel risg 80b	
	82	Adolygiad Llywodraethu - Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol i rannu dogfen Adolygu Llywodraethu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio cyn i ddogfen yr adolygiad	Cyn gynted â phosibl	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol		

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		llywodraethu gael ei chwblhau.				
	85	Cyfarfodydd CA 2020 a Rhaglen Waith - Prif Swyddog Cyllid i roi gwybod i Swyddfa Archwilio Cymru am y newid dyddiad o ran cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blyneddol ac ychwanegu pynciau at Gynllun Gwaith y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Prif Swyddogion Cyllid		

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
20/09/2018	16b	Datganiad Cyfrifon Terfynol - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dros Dro i bwysleisio pwysigrwydd cynnig gwybodaeth amserol gyda'r Adran Cyflogres.	Ar unwaith	CCA	I'w drafod gyda phennaeth newydd DPS a golwg cynnar o'r cynllun archwilio i'w rannu gyda'r Gyflogres i sicrhau fod ganddynt olwg pan fydd angen gwybodaeth. Gweithred i aros ar agor hyd nes y byddwn yn paratoi'r datganiad cyfrifon y flwyddyn nesaf. Cyflogres wedi cael eu cynghori a'r gweithdrefnau wedi newid i ganiatáu hyn.	Wedi cau
	16c	Datganiad Cyfrifon Terfynol - Swyddfa Archwilio Cymru i anfon Adroddiad Datganiad Ariannol drafft i roi cyflwyniad yng Nghydbwyllgor Archwilio Gorffennaf 2019 yn nodi unrhyw newidiadau	Ar unwaith a Gorffennaf 2019	SAC	I'w osod ar agenda Gorffennaf 2019 Cyfredol.	Wedi cau
	19a	Cofrestr Risgiau - Swyddog Cydlynu Risg a Busnes i anfon Strategaeth Rheoli Risg a Pholisi Drafft ymlaen i'r Cydbwyllgor	Ar unwaith	Swyddog Parhad Risg a Busnes	Polisi Rheoli Risg Drafft wedi ei anfon i bob aelod ar 9 Hydref 2018. Angen sicrhau fod hwn yn cael ei anfon i'r safle terfynol a'i ail-anfon at aelodau. 26.06.2019 Yn dilyn asesiad gwerth y Mapio Sicrwydd mewn Cyllid ac Adnoddau naill ai 1) Fframwaith Risg ac	Wedi cau.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					Yswiriant neu 2) Fframwaith risg yn cael ein hanfon i'r Bwrdd Yswiriant 13/08 ar gyfer trefniant terfynol	
21/11/2018	28a	Archwilio Mewnol – Adroddiad Sicrwydd Rheolaethau Mewnol Cryno (SICA) TIAA i ail anfon dogfennau briffio at Aelodau'r Cydbwyllgor a sicrhau fod holl fanylion cyswllt wedi'i diweddarau er mwyn sicrhau fod holl ddogfennau briffio yn y dyfodol yn cael eu derbyn.	Ar unwaith	Archwilwyr Mewnol	CCA i wirio os yw hyn wedi ei wneud. Cyfeiriadau e-bost wedi'u derbyn. Pan mae'r Cyfarwyddwr o fewn TIAA yn derbyn y dogfennau hyn, bydd yn eu blaenyrru at y CA.	Wedi cau
	33	Unrhyw Fater Arall - Newidiadau Posibl i Bensiynau'r Heddlu - PSC i hysbysu aelodau'r Cydbwyllgor am unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol/ymatebion a dderbynnir.	Cyfredol	PSC	Cylchredodd y CCA ddatganiad i aelodau'r CA a dderbyniwyd gan Brif Ysgrifennydd i'r Trysorlys yn amlinellu problem gysylltiedig o ran heriau cyfreithiol i'r trefniadau ar gyfer y cynllun newydd. Nid yw'r oblygiadau yn glir eto a bydd aelodau yn cael eu diweddarau yn y cyfarfod nesaf.	Wedi cau
21.03.2019	37a	Diweddariad AHEM - Tîm Archwilio ac Arolygu i anfon copi o'i thaenlen waith cyfredol i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer eu gwybodaeth.	Ar unwaith	Cyswllt AHEM	Ar yr agenda	Wedi cau
	37b	Diweddariad AHEM - Y Tîm Ymchwilio ac Adolygu i fraenaru taenlen i ddangos pa weithrediadau sydd o fewn rheolaeth HGC a pha rai sy'n weithrediadau cenedlaethol.	Ar unwaith	Cyswllt AHEM	Taenlen bellach wedi'i derbyn.	Wedi cau
	37C	Diweddariad AHEM - Prif Swyddog Cyllid i osod AHEM ar agenda cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio Cymru.	Ar unwaith	PSC		Wedi cau
	38a	Archwilio Mewnol Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i drafod sut mae gweithrediadau melyn yn cael eu hadolygu gyda'r Archwiliad Mewnol.	Ar unwaith	CCA	Mae'r gweithrediadau melyn yn cyfeirio at drafodaethau sy'n cael eu rhannu gyda'r rheolwyr perthnasol. Mae proses mewn lle bellach i gofnodi unrhyw weithrediadau sy'n datblygu o hyn.	Wedi cau.
	38b	Archwilio Mewnol - CCA a'r Archwiliad Mewnol i ymchwilio os gellir dod â Strategaethau Cyfalaf a Rheolaeth y Trysorlys ymlaen.	Ar unwaith	CCA/Archwilio mewnol	Y ddau adolygiad nawr yn rhaglen waith 2019-20.	Wedi cau
	38c	Archwilio mewnol - Pennaeth Cyllid ac	Ar unwaith	CCA	E-bost wedi ei anfon at bob aelod o staff gan y	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Adnoddau i anfon e-bost i bob aelod o staff yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gysylltu derbynebau at geisiadau am dreuliau.			Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	
	38d	Archwilio Mewnol - Archwilio mewnol i anfon papurau byrrach at y CP i'w cynnwys o fewn y Papurau Archwilio Mewnol.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol	Mae'r papurau nawr wedi cael eu derbyn ac wedi eu cynnwys o fewn papurau'r Cydbwyllgor.	Wedi cau
	39a	Cynllun Blynyddol Drafft Archwilio Mewnol - Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol i anfon testun o feysydd allweddol i'w hystyried at y Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol	Problem gyda'r fformatio. Dogfennau i'w hanfon mewn .Pdf yn y dyfodol.	Wedi cau
	39b	Cynllun Blynyddol Drafft Archwilio Mewnol – Gweithle'r Archwiliad Mewnol i'w roi ar agenda cyfarfod Gorffennaf.	Cyfarfod nesaf	CP	Ar yr agenda.	Wedi cau
	41a	Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Rheolwr Archwilio Cymru i roi gwybod i Gyfarwyddwr Archwilio Cymru bod y Cydbwyllgor Archwilio wedi tynnu sylw at y ffaith fod y ffioedd yr un peth â'r flwyddyn flaenorol	Cyfarfod mis Medi	Rheolwr Archwilio Cymru	Derbyniodd Derwyn Owen lythyr oddi wrth Kate Jackson yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru. Ymatebodd Derwyn ar 30 Mai. Ar yr agenda  FW Derwyn Owen.msg	Wedi cau
	41b	Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Prif Swyddog Cyllid i rannu ymgynghoriad Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	PSC	Dosbarthwyd drwy e-bost 21 Mawrth 2019.	Wedi cau
	41c	Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Prif Swyddog Gweithredol i ofyn i'r Comisiynydd i ysgrifennu at Swyddog Archwilio Cymru yn cwestiynu ei ffioedd	Ar unwaith	PSG	CHTh wedi ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru yn cwestiynu eu ffi. Llythyr ac ymateb yn amgaaedig.  2019.04.11 Derwyn Owen.pdf  FW Derwyn Owen.msg	Wedi cau
	43	Strategaeth Gyfalaf Ddrafft - Pennaeth Cyllid i addasu paragraff 8.1 o fewn y	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	Paragraff 8.1 wedi ei ddiwygio fel y gofynnwyd a'i gyhoeddi ar y wefan.	Wedi cau

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD.	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Strategaeth Gyfalaf i nodi y ceisiwyd barn y Cydbwyllgor Archwilio ac nad eu penderfyniad nhw ydoedd.				
	44a	Bwrdd Cyd Lywodraethu a Datganiad Drafft Llywodraethu Blynyddol - Prif Swyddog Cyllid yn rhoi gwybod am beth a ddysgwyd ar y cwrs CIPFA ar fframwaith llywodraethu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Heddlu Gogledd Cymru/Cyd Bwyllgor Archwilio.	Cyfarfod nesaf	PSC	Mae'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio gyda'r gofynion a'r argymhellion presennol. Fodd bynnag, mae canllawiau CIPFA yn cael eu diweddarau yn rheolaidd, ac rydym angen sicrhau bod ein datganiadau yn cael eu diweddarau i gydymffurfio gyda'r canllawiau mwyaf diweddar a'r dulliau a ddefnyddir i'w rhoi at ei gilydd yn addas at bwrpas.	Wedi cau
	44c	Bwrdd Cyd Lywodraethu a Datganiad Drafft Llywodraethu Blynyddol - Archwilio Mewnol i archwilio'r broses pan mae canfyddiadau'r adolygiad yn cael ei roi ar waith yn y strwythur.	Parhaus	Archwilio Mewnol	I'w cynnwys o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol	Wedi cau
	45	Llywodraethu Cronfeydd wrth Gefn - Prif Swyddog Cyllid i nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud o gwmpas llywodraethu cronfeydd wrth gefn yn y Datganiad Ariannol Blynyddol.	Ar unwaith	PSC		Wedi cau
	46	Trafodaeth o'r Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20 - Prif Swyddog Cyllid i ddychwelyd y papur terfynol i'r Cydbwyllgor Archwilio fis Gorffennaf.	Cyfarfod nesaf	PSC	Ar yr agenda.	Wedi cau

Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
Pennaeth Cyllid	Guto Edwards
Pennaeth Caffael	Patricia Strong

HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Y Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
SCHTh	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
CHTh	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru




Y Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 9 Mawrth 2020

Teitl:	Diweddariad HMICFRS
Awdur:	Sarah O'Hara
Pwrpas yr adroddiad:	Pwrpas yr adroddiad yw cynnig trosolwg o arolwg HMICFRS Heddlu Gogledd Cymru ac i gynnig diweddariad ar gynnydd a chyflwyniad argymhellion cysylltiedig a meysydd i'w gwella (AFI).
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
Gall TIAA hefyd gynnal unrhyw adolygiadau arbennig y gofynnir amdanynt gan y Bwrdd, y Cydbwyllgor Archwilio neu'r swyddog enwebedig (sef y swydd sy'n gyfrifol am y cyswllt beunyddiol â'r TIAA). Mae hyn ar yr amod nad yw adolygiadau o'r fath yn peryglu gwrthrychedd nac annibyniaeth y gwasanaeth archwilio, neu gyflawni'r cynllun archwilio a gymeradwywyd.

Mynediad

Mae gan TIAA fynediad anghyfyngedig i bob dogfen, cofnod, ased, personél ac adeilad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Mae wedi'i awdurdodi i gael y cyfryw wybodaeth ac esboniadau ag y maent yn eu hystyried angenrheidiol i lunio eu barn. Bydd casglu data i'r diben hwn yn cael ei gyflawni mewn modd a ragnodir gan safonau proffesiynol TIAA, polisiâu Diogelu Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth.

Safonau a Dull Gweithredu

Bydd gwaith TIAA yn cael ei gyflawni gyda gofal proffesiynol priodol, yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Annibyniaeth

Nid oes gan TIAA rôl weithredol, ac nid oes ganddi unrhyw gyfrifoldeb dros ddatblygu, na gweithredu systemau. Fodd bynnag, gall roi cyngor annibynnol a gwrthrychol ar reoli risg, rheolaeth, prosesau llywodraethu a materion cysylltiedig, yn amodol ar gyfyngiadau o ran adnoddau. At ddibenion gweinyddol o ddydd i ddydd yn unig, mae TIAA yn adrodd i swyddog enwebedig yn Heddlu Gogledd Cymru a rhaid i'r trefniadau adrodd ystyried natur y gwaith archwilio a wnaed. Mae gan TIAA hawl mynediad uniongyrchol at Gadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio a'r swyddog cyfrifo sy'n gyfrifol (sef y swydd sydd â chyfrifoldeb ariannol).

Er mwyn cadw gwrthrychedd a didueddrwydd barn broffesiynol y TIAA, cyfrifoldeb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yw gweithredu argymhellion yr archwiliad.

Dim ond gyda sylw penodol i wrthdaro buddiannau posibl y cynhelir gweithgareddau ymgynghori. Yn rhinwedd y swydd hon, byddwn yn gweithredu fel ymgynghorydd a chytunir ar natur a chwmpas y gwaith ymlaen llaw a glynu'n fanwl wrtho.

Afreoleidd-dra, Gan Gynnwys Twyll a Llygredigaeth

Bydd TIAA yn rhoi gwybod yn ddi-oed i'r rheolydd priodol, am wendidau difrifol, twyll sylweddol, cyfrifyddu sylweddol a dadansoddiadau eraill yn amodol ar ofynion Deddf Elw Troseddau 2002.

Caiff TIAA eu hysbysu pan ganfyddir tystiolaeth o afreoleidd-dra posibl, gan gynnwys twyll, llygredigaeth neu unrhyw amhriodoldeb. Mae hyn fel y gall TIAA ystyried digonolrwydd y rheolaethau perthnasol, gwerthuso goblygiadau'r twyll ar reoli risg, rheoli a phrosesau llywodraethu ac ystyried gwneud argymhellion fel y bo'n briodol. Nid ymchwilio i'r anghysonder yw rôl y TIAA oni bai y caiff ei gomisiynu i wneud hynny.

Risgiau Sicrwydd Corfforaethol

Rydym yn ystyried pedwar risg sicrwydd corfforaethol; cyfeirio; cydymffurfio; gweithredol ac enw da, ac yn teilwra'r math o archwiliad yn unol â hynny. Ar gyfer pob math o archwiliad ystyriwyd hefyd ystyriaethau gwerth am arian ac unrhyw gysylltiadau â'r Fframwaith Sicrwydd sefydliadol. Mae canlyniadau ein gwaith ar y risgiau sicrwydd corfforaethol hyn yn llywio'r asesiad sicrwydd aseiniad unigol a hefyd y datganiad barn sicrwydd blynyddol. Mae esboniadau manwl o'r asesiadau sicrwydd hyn wedi'u nodi'n llawn ym mhob adroddiad archwilio.

Graddau Asesu Sicrwydd

Rydym yn defnyddio pedair lefel o asesiad sicrwydd: sylweddol; rhesymol, cyfyngedig a dim. Mae esboniadau manwl o'r asesiadau sicrwydd hyn wedi'u nodi'n llawn ym mhob adroddiad archwilio.

LEVELS OF ASSURANCE PROVIDED




Meincnodi

Pan fydd adolygiad tebyg yn cael ei gynnal mewn nifer o'n cleientiaid, byddwn yn darparu crynodeb ar ôl cwblhau'r adolygiad ym mhob un o'r cleientiaid lle y bo'n briodol, yn meincnodi ac yn dysgu gwersi. Bydd y crynhoad hwn yn cynnwys materion effeithiolrwydd gweithredol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i'w hystyried.

Math o Adolygiad Archwilio

Mae'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys amrywiaeth o fathau o adolygiadau archwilio. Mae'r gwahanol fathau o adolygiad yn canolbwyntio ar un neu fwy o'r risgiau sicrwydd corfforaethol. Mae'r dull hwn yn galluogi gwaith mwy manwl i gael ei wneud yn yr aseiniadau unigol nag a fyddai'n bosibl pe bai pob un o'r pedwar risg sicrwydd yn cael eu hystyried ym mhob adolygiad. Mae'r gyfres o adolygiadau archwilio a sut y maent yn ein galluogi yn unigol ac ar y cyd i lywio ein barn gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, risg a rheoli wedi'i nodi yn y diagram mapio sicrwydd.





WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cynllun Archwilio 2020 – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1747A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2020

Crynodeb	4
Archwiliad o'r cyfrifon	4
Defnyddio Adnoddau	7
Ffi, tîm archwilio ac amserlen	8
Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio	10

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau	11
Atodiad 2 – meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau	13
Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol	15

Cynllun Archwilio 2020


Crynodeb

- 1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol ac yn cyflawni fy rhwymedigaethau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:
 - archwilio eich datganiadau ariannol a thystio pa un a ydynt yn 'gywir a theg'; ac
 - asesu pa un a ydych wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.
- 2 Diben y cynllun hwn yw nodi fy ngwaith arfaethedig, pryd y bydd yn cael ei wneud, faint fydd yn ei gostio a phwy fydd yn ei wneud. Bydd gwaith cynllunio mewn perthynas ag archwilio'n mynd rhagddo'n barhaus. a byddaf yn eich hysbysu os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg.
- 3 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
- 4 Caiff fy nghyfrifoldebau, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, eu nodi yn **Atodiad 1**.

Archwilio'r Cyfrifon

- 5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar ddatganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (y Prif Gwnstabl) sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'gwirionedd a'u tegwch'. Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y cyfrifon:
 - heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
 - yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
 - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- 6 Rwyf hefyd yn ystyried a yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau ac rwy'n cyhoeddi adroddiad drwy eithriad os nad yw'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion.
- 7 Mae **Atodiad 1** yn nodi fy nghyfrifoldebau'n llawn.
- 8 Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau'n ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn fy ngalluogi i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar ymdrin â risgiau penodol gan ddarparu sicrwydd ar gyfer y datganiadau ariannol ar y cyfan. Mae fy null archwilio'n cynnwys tri cham fel a nodir yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy null archwilio



- 9 Caiff y risgiau a ganfuwyd o'm gwaith cychwynnol i baratoi'r cynllun archwilio a fydd yn effeithio ar fy archwiliad o'r datganiadau ariannol eu nodi yn **Arddangosyn 2**, ynghyd â'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â hwy. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi risgiau sy'n gyffredin i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a, lle y bo'n briodol, risgiau sy'n benodol naill ai i'r Comisiynydd neu i'r Prif Gwnstabl.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio yn y datganiadau ariannol

Risg archwilio yn y datganiadau ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau arwyddocaol	
Gwrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"> • profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a hefyd • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.
Meysydd eraill a fydd yn cael sylw wrth archwilio	
Dyfarniad McCloud Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'mesurau diogelu dros dro' a gynigiwyd i rai aelodau o'r cynlluniau	Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion ar gyfer rhwymedi i'w gymhwyso yng nghynllun pensiwn yr Heddlu.

Risg archwilio yn y datganiadau ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
<p>barnwyr a diffoddwyr tân, fel rhan o'r diwygiadau, yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod yn derbyn bod y dyfarniad yn gymwys i holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaeth a ddatgelir dan IFRS19.</p>	
<p>Gallai cyflwyno IFRS 16 Prydlesi yn 2020-21 greu rigiau o ran ei rhoi ar waith.</p>	<p>Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi. Gweler Atodiad 3 Arddangosyn 8 i gael rhagor o fanylion.</p>

- 10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl cyn cwblhau'r archwiliad.
- 11 At ddibenion adrodd, byddaf yn trin unrhyw gamddatganiadau islaw lefel 'fach iawn' (lefel perthnasedd o 5%) fel rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 12 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol â'r amserlenni cytunedig, i'r ansawdd disgwylidiedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
 - mae gwybodaeth a ddarparwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen canlyniadau archwilio cytunedig¹;
 - darperir ystafell a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
 - rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddogion Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
 - mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

¹ Mae'r ddogfen canlyniadau archwilio cytunedig yn nodi'r gofynion disgwylidiedig o ran papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.

- 13 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio datganiadau ariannol statudol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a nodir uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

Swyddogaethau archwilio statudol

- 14 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.
- 15 Bydd ffioedd archwilio'n cael eu codi am waith a wneir i ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr. Gan y bydd y gwaith archwilio'n dibynnu ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, nid yw'n bosibl amcangyfrif ffi archwilio am y gwaith hwn.
- 16 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Defnyddio Adnoddau

- 17 Fy nghyfrifoldeb i yw fy argyhoeddi fy hun bod y corff archwiliedig wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau. Mae **Atodiad 2** yn dangos y meini prawf y mae angen i ni eu hasesu wrth ddod i'n casgliad ar eich trefniadau.
- 18 Wrth ystyried y meini prawf hyn byddaf yn dibynnu ar y canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. ACEM a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, lle y bônt yn berthnasol i'n cyfrifoldebau;
 - systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a nodir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad innau arnynt;
 - canlyniadau gwaith arall a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymarferion paru data.
- 19 Byddwn yn adnabod meysydd archwilio lle mae angen i ni ategu'r sicrwydd archwilio o'r ddibyniaeth a gafwyd o'r gwaith archwilio a nodir ym mharagraff 14. Bydd y gwaith hwn yn ymwneud ag elfennau penodol o'r prosesau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol sy'n bodoli ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a bydd yn cynnwys ffocws ar y pwysau ariannol a wynebir, y trefniadau monitro sydd ar waith a chydnerthedd ariannol Swyddfeydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

Ffi

20 Caiff eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2020 ei nodi yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn ostyngiad o 3.5% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol ar gyfer 2019. Mae cyfraddau fy ffioedd ar gyfer 2020 wedi cynyddu 3% ar y cyfan; fodd bynnag, bydd fy nhimau archwilio'n parhau i lywio effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau i sicrhau nad yw codiadau mewn ffioedd yn cael eu trosglwyddo i chi.

Arddangosyn 3: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2020, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ²	Ffi wirioneddol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf (£)
Archwilio'r cyfrifon	79,166	82,166
Defnyddio Adnoddau	4,700	4,700
Cyfanswm y ffi	83,866	86,866

21 Mae'r ffi ar gyfer yr archwiliad ariannol yn seiliedig ar y cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith, ynghyd â'r gyfradd tâl ddyddiol ar gyfer pob gradd o ran aelodau o staff. Rydym yn amcangyfrif y bydd angen cyfanswm o 162 o ddiwrnodau i gwblhau'r archwiliad. Caiff y cymysgedd o sgiliau arfaethedig ac elfennau'r ffi eu nodi yn **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: dadansoddiad o'r ffi am archwilio'r cyfrifon

Rôl	Cyfradd ddyddiol	Nifer y diwrnodau	% y mewnbwn
Arweinydd Ymgysylltu	1,127	4	2.5
Rheolwr Archwilio	805	31	19
Arweinydd Archwilio	658	42	26
Hyfforddai	322	85	52.5

22 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol

² Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyntaf.

- 23 Mae rhagor o wybodaeth am fy [ngraddfeydd ffioedd a'r modd y caiff ffioedd eu pennu](#) ar gael ar ein gwefan.

Tîm archwilio

- 24 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn [Arddangosyn 5](#).

Arddangosyn 5: fy nhîm

Enw	Rôl	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Arweinydd Ymgysylltu	02920 320651	derwyn.owen@audit.wales
Michelle Phoenix	Rheolwr Archwilio	02920 320660	michelle.phoenix@audit.wales
Mike Whiteley	Arweinydd Archwilio	02920 829389	mike.whiteley@audit.wales

- 25 Ac eithrio dau aelod o staff, Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u swyddogion ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.
- 26 O ran y ddau eithriad a grybwyllwyd uchod lle mae un aelod o'm staff yn briod â swyddog heddlu un arall yn perthyn i swyddog heddlu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, rydym wedi adolygu hyn ac wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gyfyngiadau ar yr aelodau o staff mewn perthynas â gweithio ar yr archwiliad. .

Amserlen

- 27 Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill fel a gytunwyd, i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n cwmpasu'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Caiff fy ngherrig milltir allweddol eu nodi yn [Arddangosyn 6](#).

Arddangosyn 6: amserlen

Allbwn arfaethedig	Cyflawni'r gwaith	Cwblhau'r adroddiad
Cynllun Archwilio 2020	Ionawr – Chwefror 2020	Chwefror 2020
<ul style="list-style-type: none">Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau AriannolBarn ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol	Chwefror – Gorffennaf 2020	Gorffennaf 2020 Gorffennaf 2020

Allbwn arfaethedig	Cyflawni'r gwaith	Cwblhau'r adroddiad
Adroddiad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2020	Ionawr – Hydref 2020	Tachwedd 2020
Cynllun Archwilio 2021	Ionawr – Chwefror 2021	Chwefror 2021

Datblygiadau i'm gwaith archwilio yn y dyfodol

- 28 Caiff manylion datblygiadau eraill yn y dyfodol gan gynnwys newidiadau sydd ar ddod i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru a'm gwaith arfaethedig ar barodrwydd sector cyhoeddus Cymru ar gyfer Brexit eu nodi yn [Atodiad 3](#).

Atodiad 1

Priod gyfrifoldebau

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ynglŷn â'r canlynol:

- Eu 'gwirionedd a'u tegwch', gan ddarparu sicrwydd ei bod:
 - heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
 - yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
 - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddol.
- Cysondeb gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Rhaid i mi hefyd nodi drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, os nad yw datgeliadau sy'n ofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael eu gwneud neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu pa un a yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau. I gyflawni hyn, rwy'n ystyried:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a nodwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad innau arnynt;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith archwilio perfformiad ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill lle y bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau innau; ac
- unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion nad ydynt wedi'u cynnwys gan yr uchod, ac yr wyf fi'n ystyried ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol a dogfennau cysylltiedig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, i ofyn cwestiynau i mi, fel yr archwilydd, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, i herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi ystyried hefyd a ddylwn i, er budd y cyhoedd, gyhoeddi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio'n rhyddhau'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r safonau a chanllawiau cyfrifyddu perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;

- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno darparu'r canlynol ar fy nghyfer:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfyngiad at bobl yn yr awdurdod yr wyf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig ar fy nghyfer i gadarnhau:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol;
- bod yr holl drafodion wedi cael eu cofnodi a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- cyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd ar fy nghyfer at ddibenion yr archwiliad; ac
- i ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu haeriadau penodol yn y datganiadau ariannol os wyf fi'n barnu bod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Atodiad 2

Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

Arddangosyn 7: trefniadau corfforaethol

Trefniadau corfforaethol	Cwestiynau ynglŷn â threfniadau
Sefydlu amcanion sy'n pennu polisi a phrosesau penderfynu	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer pennu, adolygu a chyflawni ei amcanion strategol a gweithredol?
Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianeli cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau'n cael eu hystyried?
Monitro ac adolygu perfformiad	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, ar gyfer cymryd camau gweithredu lle y bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Cydymffurfio â pholisïau sefydledig	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â deddfau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
Risgiau gweithredol ac ariannol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli ei risgiau busnes arwyddocaol?
Rheoli adnoddau ariannol ac eraill	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gael o ran defnyddio adnoddau?</p> <p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod ei wariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael iddo?</p> <p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau cywirol lle y bo'n briodol, ac adrodd ar y canlyniadau wrth uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl?</p>

Trefniadau corfforaethol	Cwestiynau ynglŷn â threfniadau
<p>Safonau priodol o ran ymddygiad ac ati</p>	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, ar gyfer cymryd camau gweithredu?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau sydd wedi'u bwriadu i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb o ran cynnal ei fusnes?</p>

Atodiad 3

Datblygiadau eraill yn y dyfodol

A. Newidiadau sydd ar ddod i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Arddangosyn 8: newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Safon	Dyddiad dod i rym	Manylion pellach
IFRS 16 Prydlesi	2020-21	Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon prydlesi bresennol IAS 17. Y newid allweddol yw ei bod yn cael gwared gan mwyaf ar y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid ar gyfer lesddalwyr trwy gyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer lesddalwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddaliwr gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer yr holl brydlesi â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol yn un â gwerth isel. Bydd yn arwain at gydnabod yr holl brydlesi ar fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor hawl defnyddio gyda rhwymedigaeth gyfatebol am rentu yn y dyfodol. Mae hwn yn newid arwyddocaol o ran arferion cyfrifyddu lesddalwyr.
IFRS 17 Contractau Yswiriant	2021-22 ar y cynharaf	Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 Contractau Yswiriant, a oedd yn caniatáu amrywiaeth o arferion cyfrifyddu gan arwain at amrywiaeth gyfrifyddol a diffyg tryloywder ynglŷn â chreu a chydabod elw. Mae IFRS 17 yn mynd i'r afael â materion o'r fath trwy fynnu model mesur cyfredol, defnyddio gwybodaeth wedi'i diweddarau ynghylch rhwymedigaethau a risgiau, a'i gwneud yn ofynnol cyflwyno canlyniadau gwasanaethau ar wahân i incwm neu dreuliau cyllid. Mae'n gymwys i'r holl gontractau yswiriant a ddyroddwyd, ni waeth pa fath o endid sy'n dyroddi'r contractau, felly nid dim ond i gwmnïau yswiriant y mae'n berthnasol. Bydd angen i endidau ystyried yn ofalus a yw unrhyw rwymedigaethau cytundebol yr ymrwymir iddynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract yswiriant. Os ydynt, bydd angen i endidau benderfynu a yw eithriadau cwmpas penodol IFRS 17 yn berthnasol iddynt.

B. Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella trwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a rhannu adnoddau ar-lein. Mae'r prif feysydd gwaith yn ymwneud â rheolaeth ariannol, staff y sector cyhoeddus a llywodraethu.

[Rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da sydd ar ddod ac allbynnau seminarau yn y gorfennol.](#)

C. Brexit: paratodau ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'i aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi adrodd ar baratodau yng Nghymru ar gyfer 'Brexit heb gytundeb', ac yntau wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Chwefror 2019 a llythyr dilynol at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Medi 2019. Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd posibilrwydd y byddai'r DU yn gadael yr UE heb Gytundeb Ymadael (y senario dim cytundeb), a allai fod wedi dwyn canlyniadau arwyddocaol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r economi a'r gymdeithas ehangach.

Yn dilyn yr etholiad cyffredinol, fe wnaeth y Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020 o dan delerau'r Cytundeb Ymadael a luniwyd rhwng yr UE a'r DU ym mis Hydref 2019. Bydd y cam nesaf yn golygu negodi a chytuno ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Bydd cyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020, pan fydd y DU yn parhau i gyfranogi yn rhaglenni'r UE a dilyn rheoliadau'r UE. Mae'r Cytundeb Ymadael yn darparu ar gyfer estyniad o hyd at ddwy flynedd yn y cyfnod pontio, gyda chytundeb y DU a'r UE. Y dyddiad terfyn ar gyfer estyn y cyfnod pontio yw 31 Mehefin 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw'n bwriadu estyn y cyfnod pontio.

Er bod cytundeb ynglŷn â'r telerau ymadael, mae peth ansicrwydd sylweddol yn dal i fodoli:

- O ystyried yr amserlen dynn iawn ar gyfer dod i gytundeb, ceir posibilrwydd y bydd y DU yn gadael y cyfnod pontio ar ddiwedd 2020 heb gytundeb ynglŷn â'r berthynas yn y dyfodol. Yn y senario hwn, byddai llawer o'r materion a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â 'Brexit heb gytundeb', megis amharu ar gadwynau cyflenwi, yn codi eto.
- Mae safbwynt Llywodraeth y DU, sef ceisio perthynas yn y dyfodol yn seiliedig ar gytundeb masnach rydd (yn hytrach na pherthynas fwy clòs sy'n gyson â'r farchnad sengl) yn dwyn goblygiadau nad ydynt yn eglur eto, ond sy'n creu cyfleoedd a risgiau ar gyfer economi, cymdeithas ac amgylchedd Cymru.
- Ceir cwestiynau cyfansoddiadol arwyddocaol sydd heb eu datrys hefyd o ran sut y bydd pwerau mewn meysydd lle'r oedd llywodraethau datganoledig yn cymhwyso cyfraith yr UE yn uniongyrchol, megis datblygu rhanbarthol ac amaethyddiaeth, yn cael eu harfer ledled y DU ar ôl y cyfnod pontio.

Yng ngoleuni'r ansicrwydd hwn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i gadw briff gwylio ar ddatblygiadau a bydd yn gwneud penderfyniad yn nes ymlaen yn y flwyddyn ynglŷn â pha waith, os o gwbl, sy'n ofynnol i fwrw golwg ar baratodau cyrff cyhoeddus ar gyfer naill ai perthynas newydd neu ymadawiad heb gytundeb masnach â'r cyfnod pontio.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CAFFAEL

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU

Tudalen 173 o 191 **making North Wales the **safest** place in the UK**



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Yr Adran

Pennaeth Caffael
Swyddog Caffael
Swyddog Caffael
Swyddog Caffael
Swyddog Caffael

- Tricia Strong
- Kim Richardson (PT)
- Jennifer Merrison
- Lesley Forkings (Dros Dro)
- Chris Buckingham (ar ddyletswyddau adferol)

Yn adrodd yn ôl i Guto Edwards Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol)



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Strategaeth Caffael

- I gefnogo plismona gweithredol
- I ddatblygu a chyflwenwi nwyddau a Gwasanaethau sy'n addas i'r pwrpas
- I roi gwerth am arain
- I gefnogi'r Heddluoedd a Pholisi Gwerth Cymdeithasol SCHTH
- I gyflenwi lifrai ac offer addas i'r pwrpas
- I gefnogi GTAGC gyda'i caffaeliad



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Cydweithio

Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys:

- 3 Heddlu arall Cymru
- Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru
- Heddluoedd Gogledd Orllewin Lloegr
- Heddluoedd Prydeinig
- Gwasanaethau Masnachol y Goron
- YPO/ESPO
- New Blue Lite Commercial



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Llywodraethu

- Archwilio Mewnol
- Mapio Sicrwydd
- Rheolau Sefydlog
- Polisi Caffael
- Bwrdd Gwisg ac Offer



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Proses Caffael

- **Prynant Dan £20,000**

Er nad oes angen gweithdrefn dendro ffurfiol ar gyfer y pryniant hyn, rhaid ichi allu dangos bod y pryniant yn cynnig gwerth am arian dylech gael o leiaf un dyfyniad yn ysgrifenedig. Rhaid cadw adroddiad cryno byr at ddibenion archwilio ynghyd ag unrhyw ddyfyniadau a dderbynnir.

- **Prynant dros £20,000**

Rhaid cyflwyno Cwmpasu'r Farchnad wedi'i Gwblhau i Gaffael i'w gymeradwyo. Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dri dyfynbris drwy system E-dendro'r heddluoedd. Fodd bynnag, os oes digon o gystadleuaeth yn bodoli yna dylai cais am ddyfynbris fod yn ddigonol.



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Prosesau Caffael

- **Prynant dros £50,000**

Rhaid cyflwyno Cwmpasu'r Farchnad wedi'i Gwblhau i Gaffael i'w gymeradwyo. Gwahoddir tendrau gan ddefnyddio system E-dendro a thelerau ac amodau a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

- **Prynant dros y Trothwy UE**

Rhaid cyflwyno Cwmpasu'r Farchnad wedi'i Gwblhau i Gaffael i'w gymeradwyo. Gwahoddir tendrau gan ddefnyddio'r system E-dendro a thelerau ac amodau a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd;
Bydd tendrau'n cael eu hysbysebu yn unol â Rheoliadau Ewropeaidd.



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Llofnodion Contract

- Bydd pob contract lle bydd y gwerth yn fwy na £250,000 neu £100,000 y flwyddyn yn cael ei lofnodi gan y Comisiynydd neu yn absenoldeb y Comisiynydd gan y Dirprwy Gomisiynydd neu'r Prif Swyddog Cyllid.
- Lle mae gwerth y contract yn llai na £ 250, 00 neu £100,000 y flwyddyn ac nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith i'r contract fod o dan sêl yna gall y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau lofnodi'r contract neu yn ei absenoldeb Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol) ac ar gyfer contractau sy'n wedi'i ariannu'n llwyr o'u cyllidebau eu hunain, gall y Pennaeth TGCh, y Pennaeth Cyfleusterau a'r Fflyd (Cyfarwyddwr Cynorthwyol) lofnodi'r contract.
-



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Contractau

- Cyfartaledd o 200 o gontractau gweithredol ar draws 230 a mwy o gyflenwyr gyda gwariant blynyddol oddeutu £308,634,53
 - Ar hyn o bryd, £354,367 yw gwariant heb gontract ar draws 12 o gyflenwyr
 - JACK HODSON LIMITED £49,190.39
 - RSG ENGINEERING LTD £40,702.49
 - HENRY WILLIAMS AND SON (ROADS) LTD £39,981.60
 - PROJECTPROJECT LIMITED £33,600.00
 - POLICING MATTERS LTD £29,340.00
 - ROBINS & DAY 25,985.12
 - RAJ KHANNA ASSOCIATES LTD £25,710.72
 - KIA MOTORS (UK) LTD - BOLTON £24,738.89
 - A & B AIR SYSTEMS £22,347.93
 - CLUCAS METHOD OF ENTRY LIMITED £21,660.00
 - SFL MOBILE RADIO LTD £20,525.98



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Tenderau

Project Title	Annual Value	Total Value
Insurance Tender NPC	£ 6,729,930	£33,649,650
Criminal Justice Substance Misuse (DIP) Tender	£ 810,000	£ 4,050,000
IDVA - new tender	£500,000	£ 2,500,000
Vehicle recovery	£ 295,459	£1,500,000
Cleaning Contract to all NWFRS properties	£275,000	£1,375,000
Pwllheli refurbishment	£ 800,000	£800,000
Lift Maintenance Contract to all NWP/NWFRS properties	£ 100,000	£500,000
FHQ Canteen	£83,000	£415,000
Occupational Health Doctor & Recruitment Medicals	£80,000	£400,000
Pensions Administration Tender	£ 100,000	£400,000
Emergency Boarding UP	£72,000	£360,000
FME Telephone Advice Line	£167,872	£344,744
Office Furniture	£ 87,717	£ 263,000
Footwear	£ 51,098	£255,000
Uandegai building works	£ 180,000	£180,000
ANPR Maintenance	£160,000	£160,000
Vehicle Spare Parts	£ 30,000	£ 150,000
New Appliance Doors	£ 150,000	£150,000
Tactical Operational Vests	£ 10,000	£135,000
Supply or Supply and Fit of vehicle Livery Markings for Police Vehicles	£26,793	£134,000
Legal Case Management	£ 30,000	£120,000
Electronic Records System Occupational Health	£ 50,000	£ 118,000
Grounds Maintenance	£ 27,346	£ 109,384
Insurance Quotes - Specialist Policies - NWP only	£ 20,000	£ 100,000
Toilet remodelling works in Caernarfon DHQ	£ 61,000	£ 61,000
Domestic Abuse (DA) Matters training	£ 60,000	£ 60,000
Re-wire Bangor Fire Station	£ 60,000	£ 60,000
Uniform & Equipment Accoutrements	£ 15,000	£ 60,000
Roof (Sika) Amlwch FS	£ 50,000	£ 50,000
Toilet remodelling works Rhos Police Station	£ 50,000	£ 50,000
Tower Replacement Harlech/Barmouth Fire Stations	£ 50,000	£ 50,000
Heating System Rhyl Fire Station New	£ 44,000	£44,000
Re-wire Caernarfon Fire Station	£ 40,000	£ 40,000
Rhewl Classroom Extension	£39,000	£39,000
Firearms Range Maintenance	£10,000	£30,000
New Sika Roof at Ruthin	£ 25,000	£ 25,000
Confidential Shredding	£ 19,142	£19,142
Tender for £35-250k Facilities Work	£ 10,000	£ 10,000
All Wales Driver Awareness	£ -	£ -
Waterproof Coats	£	£



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Cyfraniad at Arbedion yr Heddlu

- 2018.2019 - £444,601
- 2019/2020 - £87,663 (hyd at ddiwedd mis Ionawr 2020)



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Prosiectau Cenedlaethol

- New Blue Lite Commercial
 - Disodli contractau Data Baes a'r Porth E-tendro (Ebrill 2021)
- 2021 Caffaeliad Cerbydau
- Gwasanaethau Ieithyddol
- National Uniform Managed Service (NUMS) Lite
- Gwasgodau Tactegol Gweithredol
- Adnewyddu Arfwisg Corff
- Dillad sy'n Dal Dŵr



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Prosiectau Cymru-gyfan

- Gweinyddu Pensiynau
- Gwaredu gwastraff cyfrinachol
- Ailhyfforddi Gyrwyr (Cyrsiau Ymwybyddiaeth Gyrwyr)
- Achub Cerbydau (ystyried yr opsiynau)
- Cynllunio lliwio cerbydau



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Prosiectau Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr

- Yswiriant
- Trowsusau Gweithredol parthed tendr
- Esgidiau parthed tendr
- Achub Cerbydau (ymchwilio'r opsiynau)



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Lifrai

Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i defnyddio Manylebau Cenedlaethol ar gyfer eu holl lifrai.

Mae HOP yn cynrychioli'r NWR ar y Grŵp Lifrai Cenedlaethol a'r Grŵp Lifrai NWR



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Gwerth Cymdeithasol

Gwlad	Gwir Wariant	% o'r cyfanswm
Lloegr	£20,202,332.02	68.1%
Cymru	£9,039,165.11	30.5%
Yr Alban	£266,111.64	0.9%
Iwerddon	£62,073.44	0.2%
Canada	£49,999.00	0.2%
Ewrop	£35,704.60	0.1%

Gwlad	Cyflenwyr Gweithredol	% o Cyfanswm
Lloegr	141	67.14%
Cymru	58	27.62%
Yr Alban	4	1.90%
Iwerddon	4	1.90%
Ewrop	2	0.95%
Canada	1	0.48%



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Gwerth Cymdeithasol

10 uchaf o ran Gwir wariant o ran cyflenwyr nad ydynt o Gymru dros y 12 mis diwethaf

Cyflenwr	Gwlad	Gwir wariant
NW (BBP) Limited	Lloegr	£3,259,805.71
Adecco Ltd	Lloegr	£2,172,447.15
NPower	Lloegr	£1,105,205.05
Peugeot	Lloegr	£893,107.10
Comparex UK Limited	Lloegr	£862,331.07
Arthur J Gallagher	Lloegr	£802,903.71
CNS Group	Lloegr	£735,240.41
Reveal Media Ltd	Lloegr	£708,865.98
Key Forensics	Lloegr	£616,131.24
BT Global Services	Lloegr	£595,182.99

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyafr diogel** yn y DU

making North Wales the **safest** place in the UK



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

Gwerth Cymdeithasol

10 uchaf o ran Gwir wariant o ran cyflenwyr o Gymru dros y 12 mis diwethaf

Cyflenwr	Gwlad	Lleoliad	Gwir wariant
CGI UK Limited	Cymru	Y Rhyl	£6,109,941.22
Kaleidoscope Project	Cymru	Casnewydd	£970,000.00
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	Cymru	Y Rhyl	£309,847.39
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	Cymru	Llanelwy	£0.00
Canolfan Merched Gogledd Cymru	Cymru	Y Rhyl	£195,804.00
Fred Weston Electrical Ltd	Cymru	Y Rhyl	£195,695.44
Kier Group PLC (prev. Mouchel)	Cymru	Wrexham	£109,593.00
Decon's	Cymru	Yr Wyddgrug	£92,389.20
BOF	Cymru	Caerdydd	£85,669.83
UK Telematics Ltd	Cymru	Wrecsam	£75,568.41
WR Davies	Cymru	Llangefni	£72,591.22



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

Diolch

Unrhyw Gwestoiwn?